# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 30 Ionawr 2026
## Tabled on 30 January 2026

## Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)
## Prohibition of Greyhound Racing (Wales) Bill

**Rhys ab Owen** **1**

Section 1, page 1, after line 11, insert—

‘(c) is an owner, co-owner or trainer of a greyhound and uses such greyhound, or knowingly permits such greyhound to be used, for greyhound racing in Wales, or

(d) is an attendee of greyhound racing in Wales.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

‘(c) yn berchennog, yn gyd-berchennog neu’n hyfforddwr milgi a’i fod yn defnyddio’r milgi hwnnw, neu dan wybod iddo yn caniatáu i’r milgi hwnnw gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru, neu

(d) yn fynychwr rasio milgwn yng Nghymru.’.

**Rhys ab Owen** **2**

Section 2, page 1, after line 15, insert—

‘( ) “attendee” means -

(i) a person attending a greyhound racing event in Wales as a spectator;

(ii) a person attending a greyhound racing event in Wales whose principal purpose is to provide services in connection with such an event.’.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 15, mewnosoder—

‘( ) ystyr “mynychwr” yw—

(i) person sy’n mynychu digwyddiad rasio milgwn yng Nghymru fel gwyliwr;

(ii) person sy’n mynychu digwyddiad rasio milgwn yng Nghymru sydd â’r prif ddiben o ddarparu gwasanaethau mewn cysylltiad â digwyddiad o’r fath.’.

**Rhys ab Owen** **3**

Section 2, page 1, line 16, leave out 'around' and insert 'on'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 16, hepgorer 'o amgylch trac' a mewnosoder 'ar drac'.

**Rhys ab Owen** **4**

Section 2, page 1, line 17, leave out 'activated by mechanical means'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 16, hepgorer 'sydd wedi ei actifadu'n fecanyddol'.

**Rhys ab Owen** **5**

Section 2, page 1, line 18, leave out 'around' and insert 'on'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 18, hepgorer 'o amgylch trac' a mewnosoder 'ar drac'.

**Rhys ab Owen** **6**

Page 1, after line 30, insert a new section—

*'Review of Act*

**[ ] Review of operation and effect of Act**

(1) The Welsh Ministers must, no later than the end of the 5 year period, carry out a review of the operation and effect of this Act.

(2) In this section, "the 5 year period" means the period of 5 years beginning with the day appointed by the Welsh Ministers under section 5(2).'.

Tudalen 1, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd—

*'Adolygiad o'r Ddeddf*

**[ ] Adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o 5 mlynedd, gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf hon.

(2) Yn yr adran hon, ystyr "y cyfnod o 5 mlynedd" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 5(2).'.

**Rhys ab Owen** **7**

Page 1, after line 30, insert a new section—

**'[ ] Report on operation and effect of Act**

(1) The Welsh Ministers must, as soon as practicable after the end of the 5 year period, lay before Senedd Cymru a report on the operation and effect of this Act during that period.

(2) In preparing the report the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.

(3) The Welsh Ministers must publish the report as soon as practicable after it has been laid before Senedd Cymru.

(4) "The 5 year period" is the period of time specified in section [*new section to be inserted by amendment 6*](2).'.

Tudalen 1, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd, osod gerbron y Senedd adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru.

(4) "Y cyfnod o 5 mlynedd" yw'r cyfnod a bennir yn adran [*adran newydd i'w mewnosod gan welliant 6*](2).'.

**Rhys ab Owen** **8**

Section 5, page 2, line 3, after 'section' at the first place where it appears, insert ', section [*new section to be inserted by amendment 6*]'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 3, ar ôl 'hon' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ', adran [*adran newydd i'w mewnosod gan welliant 6*]'.

**Rhys ab Owen** **9**

Section 5, page 2, line 3, after 'section' at the first place where it appears, insert ', section [*new section to be inserted by amendment 7*]'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 3, ar ôl 'hon' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ', adran [*adran newydd i'w mewnosod gan welliant 7*]'.

**Rhys ab Owen** **10**

Section 5, page 2, line 7, leave out '—

(a) no sooner than 1 April 2027, and

(b) no later than 1 April 2030'

and insert 'no later than 1 April 2027'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 7, hepgorer '—

(a) nad yw cyn 1 Ebrill 2027, a

(b) nad yw ar ôl 1 Ebrill 2030'

a mewnosoder 'nad yw ar ôl 1 Ebrill 2027'.